GWEITHDREFN FFITRWYDD I YMARFER 2023/2024

Teitl: Gweithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer					
Fersiwn	**Dyddiad Cyhoeddi**	**Disgrifiad o'r Adolygiad**	**Awdur**	**Cymeradwywyd Gan a'r Dyddiad**	**Dyddiad Adolygu Nesaf**
1.0	Medi 2019	Rhifyn Cyntaf	Siobhan Coakley	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd 4 Awst 2019	Mehefin 2020
2.0	Medi 2020	Ail Rifyn	Siobhan Coakley	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd 6 Gorffennaf 2020	Mehefin 2021
3.0	Medi 2021	Trydydd Rhifyn	Charlotte Lawrence	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd 19 May 2021	Mehefin 2022
4.0	Medi 2022	Pedwerydd Rhifyn	Siobhan Coakley	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd	Mehefin 2023
5.0	Medi 2023	Pumed Rhifyn	Siobhan Coakley	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd	Mehefin 2024

DEHONGLIAD:

Dylid dehongli rolau'r Brifysgol, lle nodir, fel y rôl neu'r rôl gyfatebol at ddibenion cymhwyso'r weithdrefn.

ADRAN UN: CYFLWYNIAD

1.1 Dylid darllen y Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer ar y cyd â'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr, sy'n manylu ar ddisgwyliadau o ran ymddygiad.

1.2 Y Weithdrefn sy'n berthnasol fydd y Weithdrefn a weithredir yn ystod y flwyddyn y derbynnir yr honiad.

1.3 Mae'r Weithdrefn hon yn ymwneud â chyrsiau sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol, anodiad/cofrestriad cychwynnol a/neu bellach, a/neu drwydded i ymarfer mewn cyd-destun proffesiynol ac sydd yn nodweddiadol yn wasanaeth-ganolog/cleient-ganolog/claf-ganolog ac wedi'u cyfeirio at gyflawni cymhwysedd proffesiynol a/neu gofrestru proffesiynol. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd y Weithdrefn hon yn berthnasol i gyrsiau sy'n hwyluso mynediad i gyrsiau sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol a/neu drwydded i ymarfer (gweler Atodiad 1).

ADRAN DAU: EGWYDDORION CYFFREDINOL

2.1 Pan fo angen, bydd y Brifysgol yn gweithredu o dan ei Gweithdrefnau Ffitrwydd i Ymarfer er mwyn:

- amddiffyn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth neu gleientiaid nawr neu yn y dyfodol (h.y. amddiffyn y cyhoedd)
- dangos prosesau cadarn i amddiffyn y cyhoedd
- cydymffurfio â gofynion Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRBs)

Wrth ei gymhwyso, mae Gweithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer y Brifysgol yn amddiffyn y Brifysgol pe bai cyflogwr yn y dyfodol, a/neu'r cyhoedd a/neu gyn-fyfyrwyr yn cwestiynu ein proses a'r broses o wneud penderfyniadau wedi hynny.

2.2 Pennir canlyniad unrhyw wrandawiad Ffitrwydd i Ymarfer neu adolygiad ar sail cydbwysedd tebygolrwydd[1], yn ôl cred resymol bod yr honiad yn fwy tebygol o fod yn wir na pheidio, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd. Mae baich y prawf yn penderfynu pwy sy'n gyfrifol am brofi problem. Mewn perthynas â honiadau Ffitrwydd i Ymarfer, y Brifysgol sy'n gyfrifol am faich y prawf.

2.3 Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb i ddarparu amgylchedd sy'n ddiogel, yn barchus ac yn oddefgar. Mae hyn yn cynnwys lleoliad y Brifysgol ac unrhyw leoliad ymarfer a ddefnyddir fel rhan o raglen astudio myfyriwr. O ganlyniad, disgwylir bod myfyrwyr, eu cynrychiolwyr ac aelodau staff, yn ymddwyn yn rhesymol, yn broffesiynol ac yn deg tuag at ei gilydd, ac yn parchu'r broses.

[1] Mae hyn yn golygu bod yr amgylchiadau yn fwy tebygol na pheidio o fod wedi digwydd. Mae hon yn safon is na 'y tu hwnt i amheuaeth resymol'.

2.4 Wrth weithredu'r Weithdrefn hon, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hysbysu o'r achos yn eu herbyn ac yn derbyn cyfle priodol i ymateb i'r achos hwnnw cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

2.5 Mae gan fyfyriwr sy'n destun honiad yr hawl i gael gwybod am yr honiadau hynny ac ymateb iddynt fel y gallant amddiffyn eu hunain. Rhaid i unrhyw un sy'n gwneud honiad dderbyn y bydd ei ddatganiad a'i dystiolaeth ategol yn cael eu darparu i'r Myfyriwr sy'n Ymateb. O ganlyniad, ni fydd honiadau a wneir yn ddienw fel arfer yn cael eu derbyn gan y Brifysgol. Yn ogystal, ni fydd y Brifysgol fel arfer yn ystyried datganiadau tyst, lle mae'r tyst yn mynnu eu bod yn aros yn ddienw. Y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr fydd yn penderfynu a ddylid caniatáu ystyried honiad dienw/datganiad tyst, ar y cyd â staff perthnasol fel y bo'n briodol.

2.6 Os bydd unrhyw dystion (sy'n fyfyrwyr yn y Brifysgol ac wedi darparu tystiolaeth ynglŷn â'r achos) yn anfodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'r Weithdrefn, efallai y gallant gyflwyno cwyn gan ddefnyddio'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr.

2.7 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod datblygiadau mewn technoleg fodern yn ei gwneud hi'n haws i bobl wneud recordiadau cudd h.y. recordiadau o gyfarfodydd neu sgyrsiau a wneir heb ganiatâd y cyfranogwyr. Mae'n debyg y bydd recordio galwadau ffôn yn groes i Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol 2000/Deddf Pwerau Ymchwiliol 2016 (fel y bo'n briodol). Os recordir cyfarfodydd wyneb yn wyneb, mae'n debyg y bydd y deunydd a gesglir yn cael ei ddal yn groes i hawliau Erthygl 8 y cyfranogwr (i fywyd preifat a bywyd teuluol) o dan y Ddeddf Hawliau Dynol a chyfreithiau diogelu data'r DU. Am y rheswm hwn, ni fydd y Brifysgol yn caniatáu i recordiadau cudd gael eu defnyddio mewn achosion Ffitrwydd i Ymarfer, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol.

Yn ogystal, dim ond at y diben y cafodd ei wneud y dylid defnyddio recordiad ac ni ddylai fod ar gael i drydydd parti heb gydsyniad yr unigolyn y mae'n cyfeirio ato, oni bai bod rheswm cyfreithlon i wneud hynny.

Am y rhesymau hyn, bydd y Brifysgol yn caniatáu defnyddio recordiadau o'r fath mewn achosion Ffitrwydd i Ymarfer, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol.

Y ffeithiau a ystyrir yw:

- I ba raddau y mae'r dystiolaeth yn berthnasol i faterion yr achos, gan gynnwys ystyried natur y dystiolaeth ac a oes tystiolaeth arall, gryfach, ar gael.
- I ba raddau y casglwyd y dystiolaeth yn anghyfreithlon neu y bydd defnyddio'r dystiolaeth yn ymyrryd fel arall â hawliau preifatrwydd.
- I ba raddau y gellir dibynnu ar y dystiolaeth o safbwynt technegol o ystyried ei bod hi'n bosibl ffugio deunydd wedi'i recordio.

2.8 Bydd honiad(au) newydd neu ddiwygiedig a wneir, neu sy'n dod i'r amlwg, yn ystod ymchwiliad, yn cael ei gyfleu/eu cyfleu i'r myfyriwr yn ysgrifenedig. Bydd y myfyriwr yn cael cyfle i roi sylwadau ar yr honiad(au) newydd/diwygiedig a bydd hyn yn cael ei ddarparu i'r holl unigolion perthnasol.

2.9 Mae manylion am gyfrifoldebau ar gyfer cyfathrebu ym mhob cam o'r Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer wedi eu cynnwys yn y Cynllun Cyfathrebu.

2.10 Mae rhestr o enghreifftiau ***anghyflawn*** o gamymddygiad posibl wedi'i chynnwys yn y Cod Ymddygiad Myfyrwyr.

2.11 Mae gan y Cofrestrydd Academaidd (neu'r enwebai) yr awdurdod i gymeradwyo diwygiadau i gyfansoddiad y panel os oes angen.

2.12 Dylid dwyn honiadau cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl ac fel rheol heb fod yn hwyrach na thri mis ar ôl yr achos olaf sy'n arwain at yr honiad. Yr eithriad i'r amserlen arferol o dri mis yw ar gyfer unrhyw achos sy'n ymwneud â honiad o gamymddygiad sydd hefyd yn drosedd neu oni bai bod rheswm da pam na ddygwyd yr honiad o gamymddygiad o fewn tri mis.

2.13 Gellir sefydlu cytundeb gwirfoddol ar y cyd rhwng myfyrwyr (Cytundeb Dim Cyswllt (NCA)) i gyfyngu ar y tebygolrwydd o gysylltiad rhyngddynt, ac eithrio'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer eu gweithgareddau academaidd, cyn neu yn ystod gweithrediad y Weithdrefn hon. Nid yw NCA yn ganfyddiad o gyfrifoldeb am dorri rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol.

2.14 Os oes unrhyw amwysedd ynghylch pa weithdrefn y dylid ei dilyn oherwydd natur yr honiad, bydd Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cysylltu â Deon y Gyfadran (neu enwebai) cyn penderfynu ar y weithdrefn briodol. Gallai enghraifft o hyn fod pan fo elfennau yn yr honiad y byddai'n fwy priodol eu hystyried o dan y Weithdrefn Camymddygiad Academaidd. Os oes mwy nag un weithdrefn yn berthnasol a bod angen dilyn un cyn y llall, gellir defnyddio canlyniad y gyntaf i lywio'r weithdrefn(au) dilynol.

ADRAN TRI: CYNGOR A CHYMORTH

3.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu lles emosiynol, meddyliol a chorfforol pawb sy'n gysylltiedig â gweithrediad ei Gweithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer.

3.2 Mae'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn rhoi arweiniad awdurdodol, ffurfiol ar sut mae'r Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer yn cael ei chymhwyso a'i gweithredu.

Cyngor a chymorth i fyfyrwyr

3.3 Cydnabyddir y gall gwneud honiad o gamymddygiad neu fod yn destun honiad o gamymddygiad gael effaith andwyol ar les myfyrwyr. Gellir cael cyngor cyfrinachol a chymorth gan:

Undeb y Myfyrwyr - http://su.southwales.ac.uk/
Gwasanaethau Lles y Brifysgol - Llesiant | Prifysgol De Cymru
Y Gaplaniaeth - http://chaplaincy.southwales.ac.uk/
Cyngor Mewnfudo a Myfyrwyr Rhyngwladol - https://intadvice.southwales.ac.uk/

3.4 Bydd myfyrwyr sy'n cael eu hymchwilio trwy'r Weithdrefn hon, neu fyfyrwyr sydd wedi adrodd am bryder ynghylch cyd-fyfyriwr, yn cael eu cyfeirio at y Ganolfan Gyngor a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol y Brifysgol, os oes rheswm dros gredu bod yr achos wedi effeithio ar eu hastudiaethau academaidd.

3.5 Gall myfyrwyr gael unigolyn cymorth gyda nhw mewn unrhyw drafodaethau, cyfarfodydd neu wrandawiadau, er enghraifft swyddog o Undeb y Myfyrwyr, neu ffrind. Rôl yr unigolyn cymorth yw darparu cymorth yn ystod y cyfarfod. Fel rheol, nid cynrychioli'r myfyriwr, neu eirioli ar ei ran na siarad drosto yw ei rôl. Ni all y myfyrwyr anfon unrhyw un arall i'r cyfarfod ar eu rhan oni chytunwyd ar hyn fel addasiad

rhesymol oherwydd anabledd. O leiaf 48 awr cyn y cyfarfod, rhaid iddynt roi gwybod i'r Brifysgol beth yw enw a statws yr unigolyn sy'n mynd gyda nhw i'r cyfarfod. Argymhellir yn gryf y dylai'r myfyriwr geisio cymorth gan Undeb y Myfyrwyr neu Gaplaniaeth y Myfyrwyr, gan eu bod yn annibynnol ac yn gyfarwydd â rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol.

3.6 Mae'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) hefyd yn cadw'r hawl i wrthod i unigolyn cymorth fod yn bresennol os penderfynir bod achos o wrthdaro buddiannau yn gysylltiedig â'r unigolyn a enwebwyd; yn yr achos hwn, bydd y myfyriwr yn cael cyfle i enwebu unigolyn cymorth gwahanol.

3.7 Nid yw gweithdrefnau Prifysgol De Cymru wedi'u bwriadu i fod yn gyfreithiol eu natur ac o'r herwydd, ni ddylai fod angen i fyfyrwyr gael person cymorth cyfreithiol cymwys neu gynrychiolydd mewn gwrandawiadau/cyfarfodydd. Fodd bynnag, gallant geisio cyngor rhagarweiniol, heb ragfarn, ar gwmpas a natur y dystiolaeth y maent yn bwriadu ei chyflwyno i gefnogi achos sy'n arbennig o gymhleth.

3.8 Er nad oes gan fyfyrwyr hawl awtomatig i berson cymorth cyfreithiol neu gynrychiolydd, os ydynt yn dymuno cael eu cefnogi/cynrychioli mewn gwrandawiad/cyfarfod, rhaid iddynt wneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr (studentcasework@southwales.ac.uk) o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawiad/cyfarfod a drefnwyd. Rhaid i'r myfyriwr gynnwys yn ei sylwadau enw'r cynrychiolydd arfaethedig a'r rhesymeg dros eich cais.

3.9 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dderbyn neu wrthod cais i berson cymorth cyfreithiol cymwysedig neu gynrychiolydd fynychu, yn dibynnu ar b'un a roddir rheswm da, a pha mor gymhleth a difrifol yw'r achos. Os caiff cais o'r fath ei gymeradwyo, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gael personau cymorth cyfreithiol cymwysedig neu gynrychiolydd yn bresennol hefyd. Bydd cynrychiolwyr cyfreithiol yn cael eu hysbysu'n glir am natur y trafodion, h.y. nad ydynt yn broses gyfreithiol ac na fyddant yn cael eu cynnal yn y modd hwnnw.

Ffactorau lliniarol

3.10 Bydd y Brifysgol yn ystyried ffactorau lliniarol wrth benderfynu ar gosb mewn perthynas â honiadau a ategwyd ynglŷn â ffitrwydd myfyriwr i ymarfer.

3.11 Dylai'r myfyriwr hysbysu'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr cyn gynted ag y bo modd am unrhyw ffactorau lliniarol y maent am eu hystyried. Lle y bo'n briodol, bydd angen i fyfyrwyr dystiolaethu unrhyw ffactorau lliniarol y maent yn dymuno dibynnu arnynt.

3.12 Mae enghreifftiau o ffactorau lliniarol y gall y Brifysgol eu hystyried yn cynnwys (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt):

- cyfaddef i weithredoedd, a dangos edifeirwch diffuant amdanynt;
- pan gaiff gweithred ei chyflawni heb roi ystyriaeth ddigonol i'r effaith/canlyniadau, yn hytrach nag yn faleisus;
- effaith afiechyd;
- amgylchiadau personol eithafol.

3.13 Mewn rhai achosion, gall y Brifysgol benderfynu gohirio'r Weithdrefn hon, hyd nes ceir cyngor pellach, neu gall gyfeirio myfyriwr at y Weithdrefn Cymorth i Astudio.

Cyngor a chymorth i staff

3.14 Cydnabyddir y gall ymdrin â materion Ffitrwydd i Ymarfer roi staff o dan bwysau. Mae'r Brifysgol yn cynnig Cynllun Cymorth i Staff, y gellir cael manylion amdano ar y wefan Adnoddau Dynol. Yn ogystal, mae gan y Gaplaniaeth gryn brofiad o ymdrin â materion sensitif ac mae ar gael i gynnig cyngor a chymorth cyfrinachol ffurfiol ac anffurfiol.

ADRAN PEDWAR: COSBAU

4.1 Gellir ystyried a chymhwyso diwygiadau i'r cosbau hyn fel addasiad rhesymol yn dibynnu ar anghenion unigol y myfyriwr.

Ymddiheuriad ysgrifenedig

4.2 Efallai y bydd gofyn i'r myfyriwr ysgrifennu ymddiheuriad ysgrifenedig; gallai hyn fod i'r unigolyn perthnasol, neu i'r Brifysgol. Os yw'r Brifysgol yn anfodlon â'r ymddiheuriad, efallai y gofynnir i'r myfyriwr ei ailysgrifennu neu gellir cyfeirio'r achos yn ôl i gymryd camau pellach o dan y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer.

Rhybuddion

4.3 Mae tri chategori o rybuddion y gellir eu cyhoeddi yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr honiad.

a) Rhybudd llafar.
b) Rhybudd ffurfiol ysgrifenedig – bydd yn cael ei gadw ar gofnod am gyfnod penodol, sef blwyddyn fel arfer. Gall unrhyw drosedd debyg sy'n digwydd dro ar ôl tro arwain at argymhelliad i'r Is-Ganghellor, neu ei enwebai, y dylid cyfeirio'r myfyriwr at Bwyllgor Addasrwydd i Ymarfer.
c) Rhybudd ysgrifenedig terfynol – gall unrhyw honiadau pellach gael eu trin yn uniongyrchol gan Bwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, a bydd y drosedd a brofwyd yn cael ei hystyried wrth bennu cosb.

Costau

4.4 Mae'n bosibl y bydd gofyn i'r myfyriwr wneud iawn am unrhyw ddifrod y mae wedi'i achosi ar ei draul ef, hyd at £1000. Telir y taliadau i berchennog neu feddiannydd yr eiddo a ddifrodwyd. Rhoddir ystyriaeth i fodd y myfyriwr, a gellir caniatáu amser iddynt dalu'r swm neu gael caniatâd i dalu'r swm mewn rhandaliadau penodedig.

Cyfyngiadau/amodau

4.5 Gellir gosod cyfyngiadau neu amodau ar y myfyriwr. Enghreifftiau yw: cymorth i'w geisio gan y Gwasanaethau Myfyrwyr; cael parhau ar y cwrs/lleoliad dan oruchwyliaeth agos. Os bernir mai dyna sydd orau er budd y myfyriwr, gellir gwneud atgyfeiriad at raglen addysgol.

Eithrio

4.6 Mae gan y Pwyllgor Disgyblu'r awdurdod i wahardd y myfyriwr o gampysau penodol, ardaloedd penodol o gampws, megis Undeb y Myfyrwyr, Neuaddau Preswyl neu'r

Neuadd Chwaraeon. Mewn achosion o'r fath, bydd y myfyriwr fel arfer yn cael mynychu'r Brifysgol at ddibenion addysg a chymorth yn unig.

Gwahardd dros dro

4.7 Mae gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yr awdurdod i wahardd y myfyriwr o'r Brifysgol am resymau disgyblu am gyfnod y mae'n ei ystyried yn gyfiawn ac yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Gellir gosod amodau pan fydd y myfyriwr yn dychwelyd i astudio. Gall fod yn ofynnol i fyfyrwyr sy'n cael eu hatal dros dro dalu swm cymesur o ffioedd yn dibynnu ar asesiad o'r ffioedd a dalwyd eisoes a'r addysgu a dderbyniwyd eisoes. Gall unrhyw farciau sydd heb eu cadarnhau gan y byrddau asesu cyn yr ataliad gael eu dileu.

Diarddel

4.8 Mae gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yr awdurdod i ddiarddel y myfyriwr o'r Brifysgol ar sail disgyblaeth. Gall fod yn ofynnol i'r myfyriwr dalu swm cymesur o ffioedd yn dibynnu ar asesiad o'r ffioedd a dalwyd eisoes a'r addysgu a dderbyniwyd eisoes. Gellir dileu unrhyw farciau nad ydynt wedi'u cadarnhau gan y byrddau asesu cyn y diarddel. Lle bo'r gosb yn ddiarddel, ac nad yw aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn aelod o'r Pwyllgor, bydd y penderfyniad yn cael ei gadarnhau gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai)

Cymhwyso cosbau

4.9 Mae'r cosbau a nodir yn Adran Deg 'Canllawiau ar Gymhwyso Cosbau' yn enghreifftiol yn unig.

4.10 Gall achosion lluosog neu ailadroddus o gamymddwyn fod yn fwy difrifol nag un weithred o gamymddwyn a gellir ystyried canfyddiadau blaenorol wrth benderfynu pa gosb y dylid ei rhoi.

4.11 Gellir gosod cosbau ar gyn-fyfyriwr sydd wedi graddio, lle digwyddodd trosedd a fyddai'n effeithio ar ei addasrwydd i ymarfer tra oedd yn fyfyriwr yn y Brifysgol.

ADRAN PUMP: SAFONAU PROFFESIYNOL

Camymddygiad proffesiynol

5.1 Mae'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr yn cynnwys enghreifftiau ***anghyflawn*** o ymddygiad, a allai olygu camymddygiad proffesiynol, ac felly sbarduno ymchwiliad i ffitrwydd myfyriwr i ymarfer. Mae'r rhain yn berthnasol i bob agwedd ar fywyd proffesiynol a phersonol myfyriwr, gan gynnwys gweithgarwch ar-lein a rhwydweithio cymdeithasol.

Anaddasrwydd proffesiynol

5.2 Gall anaddasrwydd proffesiynol gael ei ddangos mewn sawl ffordd. Dyma rai enghreifftiau cyffredin:

a) Agwedd neu ymddygiad amhriodol cyson a all gael ei amlygu gan y canlynol:

- methu â chadw at brosesau a gweithdrefnau a dilyn cyngor gan y Brifysgol neu leoliad/ darparwr dysgu ymarfer;
- methiant i ddilyn y gweithdrefnau/arferion a argymhellir, a all roi pobl eraill fel cleientiaid, myfyrwyr neu staff mewn perygl o gael niwed;
- diffyg cymhelliant neu ddiddordeb parhaus a/neu beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu (e.e. dysgu ymarfer/lleoliadau, cyflwyniadau, sesiynau academaidd wedi'u hamserlennu, tiwtorialau academaidd neu fugeiliol, sesiynau sgiliau clinigol, gofal uniongyrchol i gleientiaid);
- methiant i fynychu dosbarthiadau, dysgu ymarfer/lleoliad neu apwyntiad perthnasol arall;
- ymroddiad gwael a methiant i gyflwyno gwaith;
- methu'n gyson â dangos y cymhwysedd/hyfedredd proffesiynol angenrheidiol.

b) Ymddygiad amhroffesiynol a all gael ei amlygu gan y canlynol:

- camddefnyddio'r rhyngwyd a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol;
- methiant i gadw ffiniau proffesiynol neu rywiol priodol;
- torri cyfrinachedd;
- gwahaniaethu anghyfreithlon;
- anghwrteisi cyson tuag at gydweithwyr neu bobl eraill;
- ymddygiad anghymdeithasol sy'n cael effaith andwyol ar weithrediad priodol y cyd-destun ymarfer proffesiynol.
- anonestrwydd.

Pryderon iechyd

5.3 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall fod gan fyfyrwyr gyflyrau iechyd, neu y gallant ddatblygu cyflyrau iechyd, a all effeithio ar eu Ffitrwydd i Ymarfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd cyflyrau iechyd (gan gynnwys anableddau) yn codi pryderon mewn perthynas â ffitrwydd i ymarfer myfyriwr. Prif nod arferion a gweithdrefnau cynhwysol y Brifysgol yw bodloni anghenion myfyrwyr ag anableddau; gall addasiadau pellach gael eu gwneud hefyd i sicrhau nad yw myfyrwyr yn cael eu rhoi dan anfantais oherwydd cyflwr iechyd/anabledd, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw faterion iechyd a diogelwch. Hefyd, gellir gofyn i fyfyrwyr addasu eu harferion i sicrhau eu bod yn gallu astudio a gweithio'n ddiogel ac effeithiol.

5.4 Yn anffodus, mae'n bosibl y bydd amgylchiadau pan amherir ar ffitrwydd i ymarfer myfyriwr ac nad oes modd darparu addasiadau rhesymol oherwydd cyfyngiadau iechyd a diogelwch a chyfyngiadau eraill. Gall hyn ei gwneud yn amhosibl i fyfyriwr raddio gyda dyfarniad sydd wedi'i gymeradwyo/ei achredu'n broffesiynol, gan ei atal rhag ymgymryd â hyfforddiant pellach, cofrestru neu gael anodiad/cofrestriad pellach gyda'r corff proffesiynol perthnasol.

5.5 Bydd y Brifysgol yn ystyried pa dystiolaeth, os o gwbl, sydd ei hangen ar y myfyriwr fel y gall asesu eu Ffitrwydd i Ymarfer yn briodol a'u cefnogi yn eu hastudiaethau. Gallai hyn gynnwys tystiolaeth feddygol a/neu atgyfeiriad iechyd galwedigaethol. Bydd y Brifysgol yn cefnogi myfyrwyr i gael y dystiolaeth hon, er enghraifft, trwy eu cyfeirio at yr arbenigwr priodol a thalu am yr adroddiad lle mae hyn yn gymesur. Rhaid i'r dystiolaeth a ddarperir gan yr arbenigwr priodol adlewyrchu ffitrwydd i ymarfer y myfyriwr yn ddiogel.

Cynghori myfyrwyr ar safonau proffesiynol

5.6 Rhaid i bob cyfadran sicrhau bod ei myfyrwyr yn ymwybodol o'r safonau proffesiynol

perthnasol a dylai feddu ar ei threfniadau mewnol ei hun i fonitro a sicrhau ffitrwydd i ymarfer myfyrwyr.

5.7 Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys:

- darparu contract i fyfyriwr sy'n cynnwys cyfeiriad at Ffitrwydd i Ymarfer;
- darparu cyngor i fyfyrwyr ynghylch safonau ymddygiad proffesiynol, e.e. fel y'u disgrifir mewn llawlyfrau i fyfyrwyr a/neu ganllawiau cyrff proffesiynol priodol;
- darparu sesiynau sefydlu priodol ar ymddygiad proffesiynol a Ffitrwydd i Ymarfer a beth y mae'r rhain yn ei olygu;
- darparu manylion am ofynion y corff proffesiynol perthnasol i fyfyrwyr, gan gynnwys y gofynion sy'n ymwneud â chymhwyster y myfyriwr i gofrestru a rhwymedigaeth deon y gyfadran o ran datgan bod y myfyriwr yn addas i ymarfer;
- darparu copi o'r Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer a'r Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr;
- proses ar gyfer nodi achosion honedig o Ffitrwydd i Ymarfer, ar gyfer cyflawni gofynion y Weithdrefn hon ac unrhyw ofynion ychwanegol sydd gan ysgolion mewn perthynas â'r maes pwnc.

Cymeradwyaeth PSRB

5.8 Mae rhai PSRB yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod Cofrestredig o'r corff hwnnw, sydd hefyd yn uwch aelod o'r staff academaidd yn y maes disgyblaeth, i gymeradwyo pob myfyriwr sy'n broffesiynol addas cyn y caniateir i'r ymgeisydd gofrestru. Er y gall unrhyw achos a ystyrir drwy'r Weithdrefn hon lywio'r penderfyniad hwn, mae'r penderfyniad yn un i'r Aelod Cofrestredig ei wneud fel sy'n ofynnol gan y PSRB ac nid yw'n destun apêl nac adolygiad drwy'r Brifysgol.

ADRAN CHWECH: LEFEL 1 – CAM RHAGARWEINIOL

Proses ac egwyddorion cyffredinol

6.1 Rhaid i unrhyw faterion sy'n destun pryder mewn perthynas ag ymddygiad proffesiynol myfyriwr, ei addasrwydd proffesiynol, ac/neu ei iechyd, gael eu codi gyda'r Arweinydd Cwrs priodol, a fydd yn trafod y mater gyda'r Pennaeth Pwnc.

6.2 Wrth ystyried p'un a all fod sail i'r pryderon a godwyd, bydd Arweinydd y Cwrs/Pennaeth Pwnc fel rheol yn cwrdd â'r myfyriwr.

6.3 Lle ystyrir bod sail i'r pryderon a godwyd, bydd Arweinydd y Cwrs/Pennaeth Pwnc yn llenwi Ffurflen Achos Pryder neu Addasrwydd i Ymarfer a'i chyflwyno i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr gydag unrhyw dystiolaeth ategol briodol. Bydd y ffurflen Achos Pryder yn darparu crynodeb o'r honiadau a chaiff ei gefnogi gan dystiolaeth fel y bo'n briodol. Bydd y ffurflen yn cael ei rhannu gyda'r myfyriwr.

6.4 Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn ysgrifennu at y myfyriwr i'w hysbysu bod yr achos wedi cael ei gyfeirio.

Achos o Bryder

6.5 Mae'r Brifysgol wedi sefydlu Bwrdd Achos o Bryder y bydd aelodau Panel Achos o Bryder yn cael eu dewis o'i blith.

6.6 Bydd y Bwrdd Achos o Bryder yn cynnwys aelodau staff sydd â phrofiad o gynnig cyrsiau sy'n cael eu llywodraethu gan y Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer, fel a ganlyn:

- deuddeg aelod o'r Gyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg;
- dau aelod o'r Gyfadran Cyfrifiadura, Peirianneg a Gwyddoniaeth.

Panel Achos o Bryder

6.7 Grŵp ar lefel y Brifysgol sy'n ystyried honiadau bod safonau neu ymddygiad proffesiynol wedi'u torri ar lefel 1 y Weithdrefn hon yw'r Panel Achos o Bryder.

Aelodaeth y Panel Achos o Bryder

6.8 Bydd aelodau'r Panel Achos o Bryder fel a ganlyn:

- Cadeirydd ar lefel Rheolwr Academaidd neu'n uwch o broffesiwn sydd â chwrs sy'n cael ei lywodraethu gan Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer;
- cynrychiolwyr o ddau o leiaf o'r proffesiynau y mae ganddynt gwrs sy'n cael eu llywodraethu gan y Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer;
- enwebai'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (Ysgrifennydd).

Gall y Panel hefyd wahodd cynrychiolydd o'r bartneriaeth sy'n darparu'r ymarfer i fod yn bresennol mewn rôl ymgynghorol (os yw'n briodol).

Swyddogaethau'r Panel Achos o Bryder

6.9 Swyddogaethau'r Panel Achos o Bryder yw:

a) Rhannu arbenigedd a lledaenu arfer da.

b) Ystyried achosion myfyrwyr, sydd wedi ymrestru ar gwrs sy'n arwain yn uniongyrchol at gymhwyster proffesiynol neu gael anodiad/cofrestriad pellach sy'n rhoi'r hawl i ymarfer proffesiwn penodol, a gyfeirir at y Panel ar un o'r seiliau canlynol:

- unrhyw ymddygiad a all godi amheuaeth ynghylch ffitrwydd myfyriwr i gael ei dderbyn i'r proffesiwn hwnnw ac ymarfer, gan gynnwys Camymddygiad Academaidd; neu
- unrhyw broblem iechyd a all godi amheuaeth ynghylch ffitrwydd myfyriwr i gael ei dderbyn i'r proffesiwn hwnnw neu gael anodiad/cofrestriad pellach ac ymarfer yn y proffesiwn hwnnw.

c) Ystyried gwahardd myfyrwyr o leoliad neu faes dysgu ymarfer (gweler hefyd adrannau 7.4 – 7.11 'Atal myfyriwr o leoliad').

ch) Monitro cynlluniau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith gan y Panel Achos Pryder neu aelodau eraill o staff y gyfadran, naill ai heb ymchwiliad neu o ganlyniad i adroddiad Swyddog Ymchwilio.

d) Sefydlu, cyhyd ag y bo modd, ffeithiau'r achos, penderfynu a oes achos ac a oes angen cynnal ymchwiliad llawn er mwyn penderfynu a oes achos i'w gyfeirio at y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer.

6.10 Ar ôl ystyried yr achos gall y Panel benderfynu ar un neu fwy o'r canlynol:

a) Penderfynu nad oes unrhyw achos i'w ateb.

b) Cyfeirio'r achos at aelodau staff priodol eraill o'r gyfadran, e.e. Tiwtor Personol/Arweinydd y Cwrs/Pennaeth Pwnc.

c) Argymell bod cynllun gweithredu yn cael ei lunio ar gyfer y myfyriwr.

ch) Ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr ysgrifennu adroddiad myfyriol.

d) Ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr fynychu sesiynau cymorth mewnol neu allanol.

dd) Cyfeirio'r achos at y Weithdrefn Cymorth i Astudio.

e) Cyfeirio'r achos at Ddeon y Gyfadran (neu enwebai) i'w ystyried ymhellach (gweler hefyd adrannau 6.17 – 6.22).

f) Argymell bod y Pennaeth Pwnc (neu enwebai) yn rhoi rhybudd llafar neu ysgrifenedig anffurfiol. Ni fydd y rhybudd yn ymddangos ar gofnod y myfyriwr.

ff) Cyfeirio'r achos ar gyfer ymchwiliad llawn, ac ar sail hwn gwneud penderfyniad ynghylch y camau mwyaf priodol i'w cymryd, h.y. cyfeirio at wrandawiad Ffitrwydd i Ymarfer neu gyfeirio'n ôl at y Panel Achos o Bryder, a fydd wedyn yn penderfynu ar ganlyniad fel y manylir o dan a) i f) uchod.

g) Cyfeirio'r achos yn uniongyrchol i wrandawiad Ffitrwydd i Ymarfer pan wneir canfyddiad bod y Myfyriwr wedi'i ddedfrydu gan lys troseddol mewn perthynas â'r un ffeithiau, ystyrir cosb y llys wrth benderfynu ar unrhyw gosb o dan reoliadau'r Brifysgol. Ni fydd angen, fel arfer, ymchwiliad pellach gan y Brifysgol, gan y cymerir yr euogfarn/rhybudd fel tystiolaeth bod yr ymddygiad wedi digwydd. Bydd Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) ar y cyd â Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn penderfynu a oes angen ymchwiliad.

Yn ogystal ag a) i g) uchod, gall y Panel Achos o Bryder argymell bod y myfyriwr yn cael ei atal o'i leoliad neu faes ymarfer dysgu. Dylid darllen hwn ar y cyd â 6.9 (c) uchod.

Pan ddaw gwybodaeth bellach i'r amlwg yn ystod y weithdrefn Achos o Bryder a bod mater diogelu mewn perthynas â'r myfyriwr sy'n mynychu dosbarthiadau, cyfeirir hwn at Banel Asesu Risg y Brifysgol i'w ystyried.

Hysbysir tîm y cwrs am y canlyniad.

Y weithdrefn

6.11 Bydd y Panel Achos o Bryder fel rheol yn ymgynnull bob yn ail wythnos.

6.12 Bydd y canlynol yn cael eu rhoi i'r myfyriwr:

- copi o'r ffurflen Achos Pryder ac unrhyw dystiolaeth gysylltiedig;
- gwybodaeth am ddiben y Panel Achos o Bryder a'i gylch gorchwyl;
- dyddiad cyfarfod y Panel Achos o Bryder.

6.13 Ni ofynnir i'r myfyriwr fynychu cyfarfod y Panel Achos o Bryder ond rhoddir cyfle iddynt ddarparu datganiad ysgrifenedig i'w ystyried gan y Panel.

6.14 Bydd canlyniad y Panel Achos o Bryder yn cael ei roi i'r myfyriwr yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith i'r cyfarfod. Os bydd angen rhagor o wybodaeth ar y Panel er mwyn gwneud penderfyniad, bydd y myfyriwr yn cael gwybod am unrhyw oedi.

6.15 Mae'n bosibl y bydd myfyrwyr nad ydynt yn ymateb neu nad ydynt yn cytuno i'r mesurau a osodir gan y Panel Achos o Bryder yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer a all benderfynu ar gosb lymach.

6.16 Ni fydd cyfle i wneud cais am adolygiad o benderfyniad y Panel Achos o Bryder.

Ystyriaeth gan Ddeon y Gyfadran (neu enwebai)

6.17 Mewn achosion eithriadol, gall y Panel Achos o Bryder gyfeirio achos at Ddeon y Gyfadran berthnasol (neu enwebai) lle mae'r pryder a godwyd yn ymwneud ag euogfarn droseddol, megis trosedd yrru ddifrifol, neu fater diogelu, ond nid yw'r Panel yn ystyried bod angen cyfeirio at Lefel 2 y weithdrefn hon.

6.18 Bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael ei alw i gyfarfod gyda Deon y Gyfadran (neu enwebai). Bydd aelod o'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn mynychu fel swyddog cefnogi.

6.19 Gall Deon y Gyfadran (neu enwebai) roi rhybudd ysgrifenedig ffurfiol a fydd yn aros ar gofnod y myfyriwr am gyfnod penodol, fel arfer tan ddiwedd astudiaethau'r myfyriwr gyda'r Brifysgol.

6.20 Gall Deon y Gyfadran (neu enwebai) hefyd gyfeirio'r mater yn ôl at y Panel Achos o Bryder neu ofyn am ymchwiliad i'r pryderon a godwyd os bernir bod angen hynny.

6.21 Rhoddir y canlyniad i'r myfyriwr o fewn pum diwrnod gwaith i'r cyfarfod.

6.22 Os nad yw'r myfyriwr yn fodlon â'r canlyniad, gall gyflwyno cais am adolygiad ar yr amod ei fod yn bodloni seiliau penodol fel y nodir yn Adran Wyth.

ADRAN SAITH: LEFEL 2 – CAM FFURFIOL

Adrodd am achosion o natur ddifrifol

7.1 Gall pryderon o natur ddifrifol naill ai gael eu cyfeirio gan y Panel Achos o Bryder neu'u hadrodd yn uniongyrchol i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr gan ddefnyddio'r Ffurflen Ffitrwydd i Ymarfer. Dylid darparu tystiolaeth, lle bo modd, i gefnogi unrhyw honiadau, a dylid cyflwyno hyn mewn modd amserol.

7.2 Pan gaiff cyfeiriad ei wneud yn uniongyrchol i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr, bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai), trwy ymgynghori â Chadeirydd y Panel Achos o Bryder, yn ystyried natur yr honiadau, a pha mor ddifrifol ydynt, gyda'r bwriad o benderfynu p'un a ddylid cynnal ymchwiliad neu p'un a ddylid ymdrin â'r mater o dan lefel 1 y Weithdrefn hon.

7.3 Pan gaiff honiad ei wneud yn erbyn grŵp o fyfyrwyr, gellir ymdrin â hyn mewn un gwrandawiad. Os felly, bydd pob myfyriwr yn cael cyfle i gyflwyno achos ysgrifenedig, a chyflwyno ei achos yn unigol yn y gwrandawiad. Bydd pob myfyriwr yn cael copi o'r dystiolaeth i'w hystyried. Ystyrir amgylchiadau penodol pob myfyriwr wrth wneud penderfyniadau.

Atal o leoliad neu faes dysgu ymarfer

7.4 Gall darparwr lleoliad atal myfyriwr o leoliad neu o faes dysgu ymarfer, o dan ei weithdrefnau ei hun, a chyn cyfeirio at Banel Achos Pryder, /neu gall geisio cyngor y Brifysgol ynghylch atal, os yw'n honni nad yw'r myfyriwr yn ffit i ymarfer[2].

7.5 Fel rheol, dylid rhoi gwybod ar unwaith i Arweinydd y Cwrs (neu enwebai) am unrhyw atal ond os bydd amgylchiadau'n gwneud hyn yn amhosibl, rhaid rhoi gwybod i'r Arweinydd Cwrs (neu enwebai) o fewn 2 ddiwrnod gwaith. Bydd yr Arweinydd Cwrs (neu enwebai) yn adrodd am yr atal i'r Panel Achos o Bryder.

7.6 Gall yr Arweinydd Cwrs hefyd annog atal myfyriwr o leoliad neu faes dysgu ymarfer. Bydd y Panel Achos o Bryder yn ystyried yr achos o atal ac yn cadarnhau'r canlyniad i'r myfyriwr.

7.7 Mae enghreifftiau o amgylchiadau a fyddai'n golygu bod angen atal o leoliad neu faes dysgu ymarfer yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- gweithgaredd troseddol honedig a arweiniodd at arestio gan yr heddlu ac sy'n destun ymchwiliadau parhaus neu wrth aros am wrandawiad llys, gan gynnwys bod yn destun mechnïaeth yr heddlu
- unrhyw bryderon diogelu sy'n ymwneud â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg
- unrhyw bryderon sy'n ymwneud â diogelwch cleient a/neu amddiffyn y cyhoedd lle maent wedi'u hatal o gyflogaeth
- unrhyw honiad yn ymwneud ag anonestrwydd, twyll, a chamymddwyn rhywiol a godwyd gan gyflogwr neu unigolyn, gan gynnwys ymchwiliadau parhaus gan Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru, a chyrff cyfatebol yn y DU
- unrhyw ymchwiliad a gynhelir gan reoleiddiwr iechyd a gofal cymdeithasol y DU, er enghraifft Cyngor Gofal Cymru, yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

7.8 Bydd yr achos yn cael ei gyflwyno i'r Panel Achos o Bryder a all benderfynu:

a) Gall y myfyriwr barhau â'r elfen a addysgir o'i astudiaethau, tra'n aros am ganlyniad ymchwiliad mewnol darparwr y lleoliad/Prifysgol.

b) Bod yr achos yn erbyn y myfyriwr yn ddigon difrifol i warantu camau rhagofalus, ac os felly dylid dilyn y Weithdrefn Asesu Risg (gweler adrannau 7.12 i 7.14).

7.9 Bydd y myfyriwr fel arfer yn cael ei atal o'r lleoliad neu faes dysgu ymarfer nes bydd canlyniad yr ymchwiliad yn hysbys.

7.10 Os yw'r myfyriwr ar fisa Haen 4, rhaid i'r Arweinydd Cwrs (neu enwebai) hysbysu'r Pennaeth Cydymffurfiaeth, a fydd yn rhoi gwybod am y newid mewn amgylchiadau i Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI).

7.11 Pan fydd y Panel Achos o Bryder yn penderfynu y dylid cyfeirio achos i'r Brifysgol ymchwilio iddo ymhellach, dilynir y Weithdrefn hon.

[2] Gweler hefyd y Llawlyfr Partneriaethau *https://academicregistry.southwales.ac.uk/qae/*

Camau rhagofalus

7.12 Gellir cynnull Panel Asesu Risg y Brifysgol i wneud argymhellion yng nghyd-destun diogelu'r[3] myfyriwr ei hun, yr unigolyn sy'n dwyn yr honiad, aelodau eraill o gymuned y Brifysgol neu enw da'r Brifysgol.

7.13 Gall Panel Asesu Risg, neu mewn rhai achosion, oherwydd natur frys neu sensitif y mater, Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai), gymeradwyo cam rhagofalus hyd nes y cynhelir gwrandawiad a daethpwyd i gasgliad.

7.14 Gellir cael rhagor o wybodaeth am y broses yn y Gweithdrefnau Asesu Risg.

Troseddau

7.15 Pan fydd mater Ffitrwydd i Ymarfer hefyd yn drosedd, dilynir adrannau 78 i 6.12 y Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr lle bo hynny'n berthnasol.

7.16 Gellir ystyried trosedd gyrru o dan y Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer. Wrth ystyried a yw trosedd gyrru yn codi amheuaeth ynghylch Ffitrwydd i Ymarfer myfyriwr, rhoddir ystyriaeth i'r canlynol:

- natur y drosedd
- a gyflawnwyd y drosedd wrth ymgymryd â dyletswyddau proffesiynol;
- a gyflawnwyd yr un drosedd o'r blaen;
- a oes amgylchiadau eraill yn gysylltiedig â'r drosedd.

Ymchwiliadau i achosion Ffitrwydd i Ymarfer

7.17 Penodir Swyddog Ymchwilio gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr, ar y cyd â Deon y Gyfadran berthnasol (neu enwebai). Bydd y Swyddog Ymchwilio fel arfer yn un o Swyddogion Ymchwilio Proffesiynol y Brifysgol. Os oes angen Swyddog Ymchwilio o'r gyfadran, bydd fel arfer yn dod o'r tu allan i'r ysgol y mae'r myfyriwr wedi'i leoli ynddi ac ni fydd ganddo unrhyw wybodaeth flaenorol am yr achos. Mewn rhai amgylchiadau, gall y Brifysgol benderfynu cyflogi ymchwilydd arbenigol o'r tu allan i'r Brifysgol.

7.18 Bydd y myfyriwr sy'n ymateb yn cael gwybod yn ysgrifenedig am natur yr honiadau a pha mor ddifrifol ydynt, ei fod yn destun ymchwiliad, ac yn nodi'r Swyddog Ymchwilio a fydd yn ymchwilio i'r achos yn ei erbyn.

7.19 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn cynnal ymchwiliad i'r honiadau o fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl cyfeirio'r achos. Gall y cyfnod hwn gael ei estyn, drwy ddod i gytundeb â'r myfyriwr sy'n wynebu'r honiadau neu, o dan amgylchiadau eithriadol, gan y Brifysgol.

7.20 Bydd unrhyw gyfarfodydd gyda'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael eu cynnal ar eu campws oni bai, oherwydd natur yr honiadau, fod hyn yn amhriodol, neu drwy ddulliau electronig, ee trwy gynhadledd fideo. Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn gohebu â'r myfyriwr ynghylch unrhyw oedi yn y broses.

7.21 Fel rhan o'r ymchwiliad, gall fod yn ofynnol i'r myfyriwr gytuno y dylai'r Swyddog Ymchwilio ofyn am adroddiad meddygol mewn perthynas â'i gyflwr meddygol. Bydd

[3] Defnyddir y term diogelu yma i gyfeirio at amddiffyn iechyd, llesiant a hawliau unigolion.

yn ofynnol hefyd i'r myfyriwr gytuno bod unrhyw adroddiad o'r fath yn cael ei ddatgelu i'r graddau sy'n angenrheidiol i gynnal yr ymchwiliad ac unrhyw achos dilynol yn gywir. Gall y gofyniad hwn ymestyn i adroddiadau eraill, gan gynnwys adroddiadau gan weithwyr cymdeithasol, swyddogion prawf a'r heddlu. Bydd y Brifysgol yn talu costau unrhyw adroddiadau o'r fath.

7.22 Os bydd ymchwiliad yn dangos bod angen cyrchu'r Weithdrefn Cymorth i Astudio, mae'n bosibl y bydd angen addasu natur a hyd yr ymchwiliad yn ei ffurf arferol, neu atal yr ymchwiliad tra'n disgwyl canlyniad yr ymchwiliadau o dan y Weithdrefn Cymorth i Astudio.

7.23 Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, bydd adroddiad y Swyddog Ymchwilio yn cael ei gyflwyno i Ddeon y Gyfadran (neu enwebai). Bydd Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn cysylltu ag Ysgrifennydd y Brifysgol/Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai), yn ôl yr angen. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes achos i'w ateb, ac os felly, p'un a ddylid cyfeirio'r achos i lefel 1 y Weithdrefn hon neu ei gyfeirio i wrandawiad y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer.

Y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer

Amserlenni

7.24 Bydd gwrandawiad y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer fel arfer yn cael ei gynnull o fewn 20 diwrnod gwaith i atgyfeirio'r achos. Gellir ymestyn yr amserlen hon trwy gytundeb â'r myfyriwr sy'n destun yr honiadau neu, mewn amgylchiadau eithriadol, gan y Brifysgol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) lle mae'r Brifysgol wedi cytuno y gallai fod gan fyfyriwr gynrychiolaeth gyfreithiol.

Aelodaeth y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer

7.25 Bydd aelodau'r Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer fel a ganlyn:

- un uwch aelod staff ar lefel Pennaeth Pwnc neu uwch gyda phrofiad o Ffitrwydd i Ymarfer (Cadeirydd);
- un aelod wedi'i ddewis o blith staff academaidd ysgolion y gyfadran sydd â gofynion Ffitrwydd i Ymarfer ac sy'n meddu ar y cofrestriad proffesiynol angenrheidiol i fodloni safonau corff proffesiynol;
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu enwebai)[4].

Bydd Ysgrifennydd, nad yw'n aelod a fydd yn bresennol trwy gydol y trafodion, yn gwasanaethu'r Pwyllgor. Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) fydd yr Ysgrifennydd.

Ni fydd aelodau'r Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos na'r myfyriwr. Ni fydd cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr wedi cefnogi'r myfyriwr yn flaenorol yn ystod yr achos.

Rhoddir gwybod i'r myfyriwr am gyfansoddiad y Pwyllgor cyn i'r ddogfennaeth gael ei chylchredeg a rhoddir cyfle iddynt godi unrhyw bryderon mewn perthynas ag aelodaeth, er enghraifft os oes ganddynt sail i ystyried y gallai aelod fod yn rhagfarnllyd.

[4] Bydd cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr yn annibynnol ac ni fydd ganddo/ganddi wybodaeth flaenorol am eich achos

Mewn amgylchiadau lle mae pob aelod o'r Pwyllgor wedi arfer ei bleidlais ystyriol a'i bod yn gyfartal, bydd gan y Cadeirydd y bleidlais fwrw.

Swyddogaethau'r Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer

7.26 Swyddogaethau'r Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer yw:

a) Ystyried achosion myfyrwyr, sydd wedi ymrestru ar gwrs sy'n arwain yn uniongyrchol at gymhwyster proffesiynol neu anodiad/cofrestriad pellach sy'n rhoi'r hawl i ymarfer proffesiwn penodol, a gyfeirir at y panel ar un o'r seiliau canlynol:

- unrhyw ymddygiad a all godi amheuaeth ynghylch ffitrwydd myfyriwr i gael ei dderbyn i'r proffesiwn hwnnw a'i ymarfer, gan gynnwys ymddygiad academaidd, neu
- unrhyw broblem iechyd a all godi amheuaeth ynghylch ffitrwydd myfyriwr i gael ei dderbyn i'r proffesiwn hwnnw a'i ymarfer neu i gael anodiad/cofrestriad pellach.

b) Clywed apeliadau gan fyfyrwyr y gwrthodwyd cadarnhau eu datganiad o gymeriad da a/neu iechyd da neu gyffelyb.

c) Ystyried adroddiadau gan Swyddogion Ymchwilio.

ch) Sefydlu, cyhyd ag y bo modd, ffeithiau'r achos.

Canlyniadau posibl

7.27 Ar ôl ystyried yr achos gall y Pwyllgor:

Penderfynu nad oes achos i'w ateb.

a) Caniatáu i'r myfyriwr barhau ar y cwrs o dan oruchwyliaeth agos a/neu amodau penodedig.

b) Rhoi rhybudd ysgrifenedig ffurfiol. Cedwir y rhybudd ysgrifenedig ffurfiol ar ffeil y myfyriwr am gyfnod penodedig a gellir tynnu sylw ato mewn unrhyw eirdaon a ddarperir.

ch) Rhoi rhybudd ysgrifenedig terfynol. Cedwir y rhybudd ysgrifenedig terfynol ar ffeil y myfyriwr am gyfnod penodedig a gellir tynnu sylw ato mewn unrhyw eirdaon a ddarperir.

c) Gwahardd astudiaethau'r myfyriwr am gyfnod penodedig.

dd) Mynnu bod astudiaethau myfyriwr ar gwrs sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol neu anodiad/cofrestriad pellach yn cael eu terfynu ond bod y myfyriwr yn gallu:

- trosglwyddo ei gredyd i gwrs arall, ar yr amod ei fod yn bodloni unrhyw feini prawf derbyn penodedig a bod arweinydd y cwrs dan sylw, mewn cysylltiad â chynrychiolydd y gyfadran, wedi ymgymryd â'r ymarfer mapio priodol. Bydd y myfyriwr yn cael cymorth y gyfadran yn ystod y broses hon;
- gwneud cais fel ymgeisydd newydd i gael ei dderbyn ar gwrs arall drwy'r gweithdrefnau arferol.

Ni fydd y myfyriwr yn gallu trosglwyddo ei gredyd i rai cyrsiau, gan gynnwys y rheiny sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol sy'n dod o fewn y Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyrsiau sy'n arwain at anodiad/cofrestriad pellach. Bydd penderfyniad y Pwyllgor yn cael ei gyfleu i'r staff y mae angen y wybodaeth arnynt i wneud penderfyniad ar drosglwyddo/derbyn.

e) Mynnu bod astudiaethau'r myfyriwr ar y cwrs yn cael eu terfynu ac y dylai ei gofrestriad fel myfyriwr ddod i ben. Lle nad yw'r Cadeirydd yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith, bydd y gosb hon yn cael ei chadarnhau gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai).

7.28 Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu gwahardd neu derfynu astudiaethau myfyriwr rhyngwladol ar deitheb Haen 4, rhaid rhoi gwybod ar unwaith i'r Pennaeth Cydymffurfio gan fod y cosbau hyn yn berthnasol i'r rheoliadau teitheb Haen 4.

7.29 Os caniateir i fyfyriwr aros ar gwrs o dan amodau penodedig (gweler 7.27 b)) bydd y Panel Achos o Bryder yn monitro ei gynnydd ac yn hysbysu Ysgrifennydd y Pwyllgor am unrhyw fethiant i fodloni'r amodau ac, yn achos myfyrwyr rhyngwladol ar deitheb Haen 4, bydd yn hysbysu'r Pennaeth Cydymffurfio.

7.30 Dim ond ar ôl i'r cyfnod cais am adolygiad ddod i ben y dylai cosbau, heblaw am wahardd a diarddel, gael eu gosod.

7.31 Os bydd myfyriwr yn cyflawni trosedd gyffelyb eto, neu'n methu cydymffurfio â chosb a osodwyd gan y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer, gall arwain at gosb lymach.

Gwaith papur y mae ei angen ar gyfer gwrandawiadau

7.32 Pan gyfeirir myfyriwr at wrandawiad Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer, gofynnir am y wybodaeth ganlynol:

- datganiad personol y myfyriwr;
- adroddiad y Swyddog Ymchwilio, cofnodion cyfarfodydd a'r dystiolaeth a gasglwyd;
- unrhyw sylwadau ysgrifenedig ychwanegol ar ymddygiad a/neu iechyd y myfyriwr, gan esbonio pam mae pryder ynghylch ffitrwydd i ymarfer myfyriwr;
- gwybodaeth ffeithiol am gynnydd proffesiynol y myfyriwr ar y cwrs;
- y Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer;
- cod ymddygiad neu ddogfen gyfatebol y corff proffesiynol perthnasol;
- unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall.

7.33 Anfonir yr holl ddogfennaeth at Ysgrifennydd gwrandawiad y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer.

7.34 Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon copi o'r holl ddogfennaeth a gafwyd at y myfyriwr ac yn rhoi gwybod i'r ddwy ochr am ddyddiad y gwrandawiad cyn gynted â phosibl ac o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad beth bynnag.

7.35 Gwahoddir y myfyriwr i gyflwyno'i achos yn ysgrifenedig cyn y gwrandawiad; dylai'r datganiad hwn roi manylion am unrhyw ffactorau lliniarol y mae'r myfyriwr yn dymuno i'r Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer eu hystyried. Dylid amgáu copïau o unrhyw ddogfennaeth berthnasol, gan gynnwys tystlythyrau gan dystion. Dylid anfon y rhain at yr Ysgrifennydd o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y

gwrandawiad.

7.36 Cyfrifoldeb y myfyriwr yw darparu unrhyw ddeunydd ysgrifenedig i gefnogi ei achos. Bydd deunydd ysgrifenedig a gyflwynir gan y myfyriwr yn cael ei ddosbarthu gan yr Ysgrifennydd o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

7.37 Yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos a natur yr honiadau, a lle mae Cadeirydd y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer yn ei ystyried yn briodol, gellir gwahodd unrhyw barti y mae gweithredoedd honedig y myfyriwr yn effeithio arno i gyflwyno Datganiad Effaith.

Os yw'r myfyriwr yn derbyn cyfrifoldeb, gellir darparu'r Datganiad Effaith i, a'i drafod gyda nhw cyn cytuno ar y canlyniad a'r gosb.

Os yw'r myfyriwr yn gwadu cyfrifoldeb, adolygir y Datganiad Effaith gan y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer dim ond os yw'r honiad yn cael ei gadarnhau, a chyn i gosb gael ei phenderfynu, i gynorthwyo'r Pwyllgor i benderfynu ar gosb briodol.

7.38 Ni fydd y Pwyllgor Disgyblu yn derbyn deunydd ysgrifenedig nad yw hefyd wedi bod ar gael i'r myfyriwr cyn gwneud ei benderfyniad.

7.39 Bydd unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig yn cael ei hanfon i gyfrif e-bost personol y myfyriwr, a'i gyfeiriad e-bost Prifysgol. Yn ogystal, gellir anfon hysbysiad trwy'r dull postio mwyaf priodol, i'r cyfeiriad post diwethaf a gofnodwyd ganddo. Ystyrir y bydd hyn yn ddigonol ac yn llwyr gyflawni dyletswydd y Brifysgol i hysbysu'r myfyriwr.

Presenoldeb mewn gwrandawiadau

7.40 Rhoddir dyddiad i'r myfyriwr ar gyfer y gwrandawiad. Os bydd y myfyriwr yn gofyn am ddyddiad arall, unwaith yn unig y caiff y gwrandawiad ei aildrefnu. Dylai'r myfyriwr hysbysu'r Brifysgol o leiaf 48 awr cyn y gwrandawiad gwreiddiol os yw am newid y dyddiad. Os na fydd myfyriwr yn mynychu gwrandawiad, cynhelir y cyfarfod yn ei absenoldeb; os felly, fodd bynnag, fe'i cynghorir yn gryf i ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig at ddefnydd y Pwyllgor.

7.41 Mae myfyrwyr yn gallu galw, neu ofyn i Waith Achos Myfyrwyr wahodd tystion i gefnogi eu hachos. Rhaid i'r myfyriwr hysbysu'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr am unrhyw dystion a fydd yn bresennol o leiaf 48 awr cyn y gwrandawiad. Mae'r myfyriwr yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw dystion y mae'n dymuno eu galw yn cael eu hysbysu am ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad neu os gwneir cais drwy Waith Achos Myfyrwyr, bydd Gwaith Achos Myfyrwyr yn sicrhau bod unrhyw dyst yn cael gwybod am y dyddiad, yr amser a lleoliad y gwrandawiad.

7.42 At ddiben y weithdrefn hon, a lle bo'n berthnasol, caiff Myfyriwr sy'n Cofnodi ei ddosbarthu fel tyst. Gellir gwahodd Myfyriwr sy'n Cofnodi i fynychu'r gwrandawiad. Fodd bynnag, nid oes angen iddynt fynychu'r gwrandawiad ac o ganlyniad gallant wrthod unrhyw wahoddiad o'r fath.

7.43 Gall y Brifysgol fynnu bod aelodau staff ac unrhyw bersonau eraill sy'n berthnasol i'r achos yn bresennol yn y gwrandawiad fel tystion, os yw'n briodol. Hysbysir y myfyriwr o enwau tystion cyn y gwrandawiad.

7.44 Gellir cynnal y gwrandawiad yn bersonol neu drwy ddulliau electronig. Ni all y Myfyriwr sy'n Ymateb na'i dystion anfon unrhyw berson arall ar eu rhan. Fodd bynnag, gallant ofyn am bresenoldeb yn y gwrandawiad trwy ddulliau electronig, ee

trwy gynhadledd fideo. Rhaid i unrhyw barti sydd angen presenoldeb mewn gwrandawiad drwy ddulliau electronig hysbysu'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn ysgrifenedig ddim hwyrach na phum diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Lle cytunwyd ar hyn, bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer cyn y cyfarfod ac yn hwyluso hyn gyda'r unigolion dan sylw.

7.45 Yng ngwrandawiad y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer, bydd y Swyddog Ymchwilio neu gynrychiolydd y gyfadran yn cyflwyno achos y gyfadran, os na fydd y Swyddog Ymchwilio yn gallu mynychu.

Canlyniadau gwrandawiadau

7.46 Bydd canlyniad gwrandawiad y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer yn cael ei anfon i'r myfyriwr yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawiad drwy neges e-bost i'w gyfrif e-bost personol a'i gyfrif e-bost Prifysgol. Yn ogystal, gellir anfon hysbysiad trwy'r dull postio mwyaf priodol, i'r cyfeiriad diwethaf a gofnodwyd ganddo. Ystyrir y bydd hyn yn ddigonol ac yn llwyr gyflawni dyletswydd y Brifysgol i hysbysu'r myfyriwr.

ADRAN WYTH: LEFEL 3 – CAIS AM ADOLYGIAD

Egwyddorion cyffredinol

8.1 Mae gan fyfyrwyr hawl i wneud cais am adolygiad o'r gosb a osodwyd gan Ddeon y Gyfadran neu'r Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer (gweler Adran Saith).

8.2 Rhaid i'r cais am adolygiad gael ei gyflwyno i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr ar y ffurflen gywir a dylid ei derbyn o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer roi hysbysiad ffurfiol am y canlyniad.

Seiliau dros adolygiad

8.3 Gellir gwneud cais am adolygiad ar y seiliau canlynol:

a) Mae tystiolaeth neu amgylchiadau esgusodol newydd wedi dod yn hysbys sy'n berthnasol i'r achos, **na allai'r** myfyriwr yn rhesymol fod wedi rhoi gwybod amdanynt adeg y gwrandawiad gwreiddiol. *(D.S. Ni dderbynnir rhesymau personol, teuluol neu ddiwylliannol sensitif fel rheswm da.)*

b) Roedd anghysondebau yn y modd y cynhaliwyd y gwrandawiad a oedd yn ddigon sylweddol i beri amheuaeth resymol ynghylch a fyddai'r Pwyllgor wedi gwneud yr un penderfyniad pe byddent wedi codi.

c) Roedd canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor yn anghymesur o ystyried amgylchiadau'r achos.

8.4 Wrth wneud cais am adolygiad, cyfrifoldeb y myfyriwr yw dangos, yn ôl yr hyn sy'n debygol, fod yna dystiolaeth bod un neu fwy o'r seiliau a nodir yn adran 8.3 yn berthnasol.

Ystyried y cais am adolygiad

8.5 Os bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai), ar ôl ystyried cais y myfyriwr am adolygiad, yn dod i'r casgliad:

a) na chafodd y cais am adolygiad ei gyflwyno mewn pryd;

b) nad oedd y cais am adolygiad yn bodloni'r seiliau a nodir yn adran 8.3;

c) bod y seiliau dros ofyn am adolygiad yn flinderus neu'n wamal;

bydd y cais am adolygiad yn cael ei wrthod a bydd y penderfyniad gwreiddiol yn sefyll. Anfonir Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at y myfyriwr o fewn 5 diwrnod gwaith.

8.6 Os bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yn ystyried bod seiliau ar gyfer adolygiad, cyfeirir yr achos at Banel Adolygu.

8.7 Bydd penderfyniad Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yn cael ei gyfleu i'r myfyriwr o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y cais am adolygiad.

Y Panel Adolygu

Amserlenni

8.8 Caiff gwrandawiad y Panel Adolygu ei gynnal o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl i Ysgrifennydd y Brifysgol wneud penderfyniad i gyfeirio'r achos. Gall y cyfnod hwn gael ei estyn drwy ddod i gytundeb â'r myfyriwr y gwnaed yr honiadau yn ei erbyn neu, o dan amgylchiadau eithriadol, gan y Brifysgol.

Aelodaeth y Panel Adolygu

8.9 Bydd Panel Adolygu yn cynnwys yr aelodau canlynol:

- Yr Is-Ganghellor (neu enwebai);
- Aelod o'r uwch reolwyr.

Os bydd gwahaniaeth barn rhwng y ddau aelod o'r Panel, bydd y bleidlais fwrw gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai).

Gall y Panel ofyn i unigolyn o'r tu allan i'r Brifysgol sy'n ymarfer ar lefel uwch ym mhroffesiwn y myfyriwr fynychu mewn rôl ymgynghorol; gallai hyn fod yn rhinwedd swydd addysgol.

Bydd y gwrandawiad yn cael ei wasanaethu gan Ysgrifennydd nad yw'n aelod o'r Pwyllgor ond a fydd yn bresennol drwy gydol yr achos. Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yr Ysgrifennydd.

Ni fydd aelodau'r Panel Adolygu wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos na'r myfyriwr.

Swyddogaethau'r Panel Adolygu

8.10 Gall y Panel Adolygu benderfynu:

a) Y dylid cadarnhau canlyniad y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer.

b) Na ddylid cadarnhau canlyniad y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer a:

i. bod y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer wedi gwneud camgymeriadau trefniadol a/neu gamfarnau ac y dylai Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer newydd ymgynnull i wrando ar yr achos o'r newydd, neu
ii. bod canlyniad y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer yn anghymesur o ystyried amgylchiadau'r achos ac y dylid ei newid am ganlyniad mwy cymesur.

Gwaith papur y mae ei angen ar gyfer gwrandawiadau

8.11 Darperir y gwaith papur canlynol at ddefnydd y Panel Adolygu:

- ffurflen Cais am Adolygiad a thystiolaeth ategol;
- datganiad y myfyriwr;
- gwaith papur a ystyriwyd gan y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer;
- cofnodion gwrandawiad y Pwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer;
- y llythyr i'r myfyriwr a roddodd wybod iddo/iddi am y canlyniad.

Presenoldeb mewn gwrandawiadau

8.12 Ni fydd gofyn i'r myfyriwr fynychu gwrandawiad y Panel Adolygu fel rheol.

Canlyniad y gwrandawiad

8.13 Bydd penderfyniad y Panel yn derfynol a bydd y myfyriwr yn cael ei hysbysu amdano o fewn cyfnod o 5 diwrnod gwaith yn dilyn y gwrandawiad drwy neges e-bost i gyfrif e-bost personol a chyfrif e-bost Prifysgol y myfyriwr. Yn ogystal, gellir anfon hysbysiad trwy'r dull postio mwyaf priodol, i'r cyfeiriad post diwethaf a gofnodwyd ganddo. Ystyrir y bydd neges o'r fath yn ddigonol ac yn llwyr gyflawni dyletswydd y Brifysgol i hysbysu'r myfyriwr.

8.14 Os bydd yr adolygiad yn llwyddiannus, bydd y Brifysgol yn sicrhau, cyhyd ag y bo modd, na roddwyd y myfyriwr dan anfantais gan unrhyw gamau disgyblu neu waharddiad.

ADRAN NAW: HYSBYSU CYRFF PROFFESIYNOL/AWDURDODAU LLEOL

9.1 Mae rhai cyrff proffesiynol yn gofyn bod y Brifysgol yn eu hysbysu cyn gynted ag y rhoddir ymchwiliad ar waith o dan y Weithdrefn hon, ac wedyn eu hysbysu am y canlyniad.

9.2 Ar gyfer pob corff proffesiynol arall, ar ôl dilyn Gweithdrefn y Brifysgol i'r pen, bydd y cofrestrwr uchaf ei swydd o fewn y gyfadran yn hysbysu'r corff proffesiynol / awdurdod lleol perthnasol am y canlyniad.

9.3 Mae'n ofynnol i'r Brifysgol adrodd am bryderon difrifol i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Gellir atgyfeirio i'r GDG ar unrhyw adeg wrth ystyried achos o dan y Weithdrefn hon[5].

[5] Mae gwefan gov.uk yn manylu ar ein dyletswydd gyfreithiol i gyfeirio: https://www.gov.uk/guidance/making-barring-referrals-to-the-dbs#

ADRAN DEG: SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL (OIA) AR GYFER ADDYSG UWCH

10.1 Os bydd y myfyriwr yn anfodlon â chanlyniad y Weithdrefn hon, gall, ar ôl derbyn Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol, gyflwyno cwyn i'r OIA.

10.2 Gellir cael manylion am yr OIA a'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Cynllun yn www.oiahe.org.uk. Gellir cael gwybodaeth a chyngor pellach gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

ADRAN UN AR DDEG: CANLLAWIAU AR GYFER CYMHWYSO COSBAU

TRAMGWYDD DISGYBLU	ENGHREIFFTIAU O YMDDYGIAD ANNERBYNIOL	ENGHREIFFTIAU O GOSBAU	CYFRIFOLDEB DROS WEITHREDU'R GOSB
Aflonyddu a Bwlio	• Cyswllt corfforol digroeso, gan achosi anaf: • Dyrnu • Gwthio • Pwnio • Cicio • Taro • Brathu • Tynnu gwallt • Sylwadau neu ystumiau sarhaus neu fygythiol • Dilyn person arall dro ar ôl tro heb reswm da • Anafu un person neu grŵp yn fwriadol gan berson neu grŵp arall trwy ddulliau corfforol, geiriol, di-eiriau neu seicolegol	• Diarddel • Gwahardd/atal • Cyfyngiadau/amodau	Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer Lle bo'r gosb yn ddiarddel, ac nad yw aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn aelod o'r Pwyllgor, bydd y penderfyniad yn cael ei gadarnhau gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai)
	• Yn debygol o achosi anaf, er na wnaeth, drwy'r canlynol: • Gwthio • Pwnio • Tynnu gwallt • Sylwadau neu ystumiau sarhaus neu fygythiol • Dilyn person arall dro ar ôl tro heb reswm da • Anafu un person neu grŵp yn fwriadol gan berson neu grŵp arall trwy ddulliau corfforol, geiriol, di-eiriau neu seicolegol	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi
Camymddygiad Rhywiol	• Cael cyfathrach rywiol neu gyflawni gweithred rywiol heb gydsyniad	• Diarddel • Gwahardd/atal	Pwyllgor Disgyblu'r Brifysgol Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn

	• Ceisio cael cyfathrach rywiol neu geisio cyflawni gweithred rywiol heb gydsyniad • Tynnu ffotograffau rhywiol o rywun arall heb gydsyniad, er enghraifft tynnu llun i fyny sgert • Rhannu deunyddiau rhywiol preifat rhywun arall heb gydsyniad a/neu olygu delweddau i'w gwneud yn rhywiol eglur • Anfon ffotograffau/deunyddiau amhriodol • Cusanu heb gydsyniad • Cyffwrdd yn amhriodol drwy ddillad heb gydsyniad • Dangos organau rhywiol yn amhriodol i rywun arall • Dilyn person arall gyda bwriad rhywiol dro ar ôl tro • Gwneud sylwadau nas dymunir o natur rywiol • Paratoi i bwrpas rhyw • Gorfodaeth neu fwlio ag elfennau rhywiol • Gwahoddiadau a/neu ofynion rhywiol	• Cyfyngiadau/amodau • Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	perthyn iddi
	• Gwneud sylwadau nas dymunir o natur rywiol • Bygythiadau i rannu sibrydion neu ffotograffau rhywiol • Gwahoddiadau a/neu ofynion rhywiol	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi
Ymddygiad Ymosodol	• Bygythiadau i frifo rhywun arall • Ymgymryd ag unrhyw weithgaredd neu ymddygiad sy'n groes i Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol neu ei pholisïau Urddas wrth	• Diarddel • Gwahardd/atal • Cyfyngiadau/amodau	Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer Lle bo'r gosb yn ddiarddel, ac nad yw aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn aelod o'r Pwyllgor, bydd y penderfyniad

	Astudio/Urddas yn y Gwaith, gan gynnwys gweithredoedd o gasineb hiliol, eithafiaeth ddi-drais, eithafiaeth dreisgar a/neu frawychiaeth, gan gynnwys radicaleiddio neu ddenu pobl eraill i ymgymryd â gweithgareddau/ymddygiadau o'r fath a sylwadau ymosodol yn ymwneud â rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, hil, beichiogrwydd, priodas/partneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, anabledd neu oedran unigolyn • Gweithredu mewn ffordd fygythiol a gelyniaethus • Dilyn rhywun arall yn rheolaidd heb reswm da • Honiadau maleisus neu flinderus yn erbyn aelodau eraill o gymuned y Brifysgol sy'n cael effaith sylweddol		yn cael ei gadarnhau gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai)
	• Honiadau maleisus neu flinderus yn erbyn aelodau eraill o gymuned y Brifysgol sy'n cael effaith fach • Defnyddio iaith amhriodol • Cysylltu'n rheolaidd â rhywun arall (dros y ffôn, drwy e-bost neu neges destun, neu ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol) yn erbyn dymuniadau'r person arall • Dilyn rhywun arall yn rheolaidd heb reswm da	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi
Difrod i Eiddo	• Achosi difrod sylweddol yn faleisus neu'n fwriadol i eiddo'r Brifysgol neu eiddo myfyrwyr neu weithwyr y Brifysgol neu ymwelwyr â'r Brifysgol	• Diarddel • Gwahardd/atal • Cyfyngiadau/amodau	Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer Lle bo'r gosb yn ddiarddel, ac nad yw aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn aelod o'r Pwyllgor, bydd y penderfyniad

		• Costau – gofyniad i wneud iawn am y difrod a achoswyd ar eu traul eu hunain	yn cael ei gadarnhau gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai)
	• Achosi difrod bach i eiddo'r Brifysgol neu eiddo myfyrwyr neu weithwyr y Brifysgol neu ymwelwyr â'r Brifysgol	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi
Cymryd neu Ddefnyddio Eiddo heb Awdurdod	• Mynediad heb ei awdurdodi i safle'r Brifysgol neu ddefnydd heb ei awdurdodi ohono • Cymryd eiddo rhywun arall heb ei ganiatâd • Gwneud recordiadau heb eu hawdurdodi a'u huwchlwytho i gyfryngau cymdeithasol gan gael effaith fawr	• Diarddel • Gwahardd/atal • Cyfyngiadau/amodau	Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer Lle bo'r gosb yn ddiarddel, ac nad yw aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn aelod o'r Pwyllgor, bydd y penderfyniad yn cael ei gadarnhau gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai)
	• Camddefnyddio eiddo'r Brifysgol (er enghraifft, cyfrifiaduron a chyfarpar labordy) • Cymryd eiddo rhywun arall heb ei ganiatâd • Gwneud recordiadau heb eu hawdurdodi a'u huwchlwytho i gyfryngau cymdeithasol gan gael effaith fach	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi
Achosi Pryder Iechyd neu Ddiogelwch	• Gweithredu/diffyg gweithredu a achosodd neu a allai fod wedi achosi difrod difrifol ar safle'r Brifysgol neu yn ystod gweithgareddau'r Brifysgol (er enghraifft, ymyrryd ag offer diffodd tân fel nad ydynt yn gweithio neu feddu ar/cyflenwi cyffuriau rheoledig) • Cario arfau posibl, er enghraifft cyllyll, tra byddant ar gampws y Brifysgol.	• Diarddel • Gwahardd/atal • Cyfyngiadau/amodau	Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer Lle bo'r gosb yn ddiarddel, ac nad yw aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn aelod o'r Pwyllgor, bydd y penderfyniad yn cael ei gadarnhau gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai)

	• Gweithredu/diffyg gweithredu a achosodd neu a allai fod wedi achosi pryder iechyd a diogelwch ar safle'r Brifysgol (er enghraifft, ysmygu sigaréts mewn ardaloedd heb eu dynodi) • Cario arfau posibl, er enghraifft cyllyll, tra byddant ar gampws y Brifysgol.	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi
Rhwystro Gweithredol	• Gweithredu/diffyg gweithredu/datganiad y bwriedir iddo dwyllo'r Brifysgol[6] • Tarfu ar weithgareddau'r Brifysgol (gan gynnwys gweithgareddau academaidd, gweinyddol, chwaraeon a chymdeithasol) ar safle'r Brifysgol neu mewn mannau eraill • Tarfu ar swyddogaethau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw fyfyriwr neu weithiwr y Brifysgol neu unrhyw ymwelydd awdurdodedig â'r Brifysgol • Llwgrwobrwyo neu geisio llwgrwobrwyo aelod o staff y Brifysgol • Methu cydymffurfio â chais rhesymol unigolyn awdurdodedig.	• Diarddel • Gwahardd/atal • Cyfyngiadau/amodau	Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer Lle bo'r gosb yn ddiarddel, ac nad yw aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn aelod o'r Pwyllgor, bydd y penderfyniad yn cael ei gadarnhau gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai)
	• Gweithredoedd/hepgorion/datganiadau y bwriedir iddynt dwyllo'r Brifysgol[7] • Amharu ar weithgareddau'r Brifysgol (gan gynnwys academaidd, gweinyddol, chwaraeon a chymdeithasol) ar dir y Brifysgol neu yn rhywle arall	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi

[6] Os cyflawnir gweithred i sicrhau mynediad i'r Brifysgol, e.e. ffugio dogfennau, ac os nad yw credyd wedi'i ddyfarnu, ymdrinnir â hyn drwy gyfrwng y gweithdrefnau derbyn. Os yw credyd wedi'i ennill, ymdrinnir â'r mater drwy gyfrwng y Rheoliadau Ymddygiad Myfyrwyr.

[7] Pan ymrwymir gweithred i gael mynediad i'r Brifysgol, ee ffugio dogfennau, lle na ddyfarnwyd credyd, ymdrinnir â hyn o dan y drefn dderbyn; lle mae credyd wedi'i ennill, ymdrinnir â'r mater dan y Rheoliadau Ymddygiad Myfyrwyr.

	• Amharu ar swyddogaethau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw fyfyriwr neu gyflogai i'r Brifysgol neu unrhyw ymwelydd awdurdodedig â'r Brifysgol • Llwgrwobrwyo neu geisio llwgrwobrwyo aelod o staff y brifysgol • Methu â chydymffurfio â chais rhesymol unigolyn awdurdodedig. • Ymyrraeth amhriodol â gweithgareddau'r Brifysgol (gan gynnwys academaidd, gweinyddol, chwaraeon a chymdeithasol) ar dir y Brifysgol neu mewn mannau eraill • Ymyrraeth amhriodol â swyddogaethau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw fyfyriwr neu weithiwr i'r Brifysgol neu unrhyw ymwelydd awdurdodedig â'r Brifysgol • Methu â chydymffurfio â chais rhesymol unigolyn awdurdodedig • Methu â rhoi eu henw a'u cyfeiriad i swyddog neu weithiwr yn y Brifysgol pan ofynnir yn rhesymol iddynt wneud hynny gan swyddog neu weithiwr o'r fath wrth gyflawni eu dyletswyddau		
Niwed i Enw Da	• Ymddygiad sydd wedi achosi neu a allai fod wedi achosi niwed difrifol i enw da'r Brifysgol	• Diarddel • Gwahardd/atal • Cyfyngiadau/amodau	Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer Lle bo'r gosb yn ddiarddel, ac nad yw aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn aelod o'r Pwyllgor, bydd y penderfyniad yn cael ei gadarnhau gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai)
	• Ymddygiad sydd wedi neu a allai fod wedi achosi niwed i enw da'r Brifysgol	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi

Atodiad 1

Cwrs	Corff Achredu/Rheoleiddio
Cyrsiau nyrsio sy'n arwain at gofrestru	Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)
Cyrsiau bydwreigiaeth sy'n arwain at gofrestru	
MSc/BSc Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (pob llwybr)	
MSc/BSc Astudiaethau Iechyd Cymunedol (pob llwybr)	
Dychwelyd i Ymarfer	
Rhagnodi V100 a V150	
Rhagnodi Annibynnol	Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), Cyngor Fferyllol Cyffredinol
Meistr Ceiropracteg	Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol (GCC)
Gwaith Cymdeithasol	Gofal Cymdeithasol Cymru (CCW)
BSc (Anrh) Seicoleg gyda Dadansoddi Ymddygiad	Bwrdd Ardystio Dadansoddwyr Ymddygiad (BACB)
MSc Dadansoddi a Therapi Ymddygiad	
Diploma Ôl-radd mewn Dadansoddi Ymddygiad: Ymarfer dan Oruchwyliaeth	
BSc Cwnsela Systemig	Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP)
MSc Seicotherapi Systemig	Y Gymdeithas Therapi Teulu ac Ymarfer Systemig (AFT)
Dip Ôl-radd Ymarfer Systemig mewn Seicotherapi	Y Gymdeithas Therapi Teulu ac Ymarfer Systemig (AFT)
MA/Dip Ôl-radd Cwnsela a Seicotherapi Integreiddiol	Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP) Lefel diploma
MSc/Dip Ôl-radd Seicotherapi Ymddygiad Gwybyddol	
MSc Therapi Chwarae	Cymdeithas Therapyddion Chwarae Prydain (BAPT)
MA Seicotherapi Celf	Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)
MA Therapi Cerddoriaeth	
Tystysgrif Ôl-radd Sgiliau Therapi Ymddygiad Gwybyddol Tystysgrif Ôl-radd Sgiliau Cwnsela Integredig	Gofyniad derbyn ar gyfer yr MA mewn Cwnsela a Seicotherapi Integreiddiol a'r MSc mewn Seicotherapi Ymddygiad Gwybyddol – Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain

Cyrsiau addysgu gyda SAC UCert Datblygiad Proffesiynol Pellach ar gyfer Athrawon sy'n Dychwelyd ac Athrawon Cyflenwi	Cyngor y Gweithlu Addysg (Cymru)
UCert Datblygiad Proffesiynol Pellach ar gyfer Athrawon sy'n Dychwelyd ac Athrawon Cyflenwi	Cyngor y Gweithlu Addysg (Cymru)
PcET Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg a Hyfforddi (PcET)	Cyngor y Gweithlu Addysg (Cymru)
PcET Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg a Hyfforddi i Raddedigion (PcET)	Cyngor y Gweithlu Addysg (Cymru)
PcET Tystysgrif Ôl - raddedig mewn Addysgu a Hyfforddi (PcET)	Cyngor y Gweithlu Addysg (Cymru)
BA (Anrh) Gwaith Ieuenctid a Chymunedol	Cymeradwyaeth broffesiynol gan Bwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru
BA (Anrh) Gwaith Ieuenctid a Chymunedol (Cyfiawnder Ieuenctid)	Cymeradwyaeth broffesiynol gan Bwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru
MA/Dip Ôl-radd Gweithio i Blant a Phobl Ifanc (Gwaith Ieuenctid: Cymhwyso Cychwynnol)	Cymeradwyaeth broffesiynol gan Bwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru
BA (Anrh) Addysg ac Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar	Gofal Cymdeithasol Cymru
Doethuriaeth Broffesiynol mewn Seicoleg Cwnsela (D Psych)	Cymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) a'r Cyngor Proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HCPC)
Diploma Ôl-radd AAA/ADY (Anawsterau Dysgu Penodol)	Cymdeithas Dyslecsia Prydain
BA Cwnsela ac Ymarfer Therapiwtig	Yn ymgeisio am achrediad gan Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP)
Tystysgrif Ôl-radd mewn Astudiaethau Cwnsela	Llwybr mynediad i'r BA Cwnsela ac Ymarfer Therapiwtig sy'n ymgeisio am achrediad gan Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP)
Gradd Sylfaen mewn Nyrsio Milfeddygol	Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS)
BSc (Anrh) Ffisiotherapi	Cymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion (CSP) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)
BSc (Anrh) Ymarfer Adran Llawdriniaethau	Coleg Ymarferwyr Adrannau Llawdriniaethau (CODP) (cymeradwyaeth) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)
BSc (Anrh) Therapi Galwedigaethol	Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)
Tystysgrif Addysg Uwch (CertHE) Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd	Llwybr mynediad i'r gradd nyrsio blwyddyn gyntaf

Atodiad 2

Gweithdrefn ar gyfer adrodd am bryderon am fyfyrwyr cofrestredig sy'n dilyn cyrsiau nad ydynt yn arwain at anodiad/cofrestriad pellach

Dylid defnyddio'r Weithdrefn hon os yw myfyriwr wedi camymddwyn neu os oes gan aelodau staff bryderon am ei weithredoedd neu ymddygiad ac na ellir cymhwyso'r Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer gan ei fod yn fyfyriwr cofrestredig a chan nad yw'n dilyn cwrs sy'n arwain at anodiad/cofrestriad pellach.

Gweithdrefn

1. Os oes gan aelod staff bryderon am weithredoedd neu ymddygiad myfyriwr cofrestredig, dylai roi gwybod am hyn i'w pennaeth pwnc.

2. Yn dilyn y trafodaethau uchod, dylid cyflwyno adroddiad os oes amheuaeth o gamymddygiad. Dylai Ffurflen Honiad o Gamymddygiad gael ei llenwi a'i hanfon i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr. Yna cynhelir ymchwiliad i'r amgylchiadau gan ddefnyddio'r Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr.

3. Ar ôl dod i benderfyniad, naill ai ar lefel y gyfadran neu lefel y Brifysgol, bydd y cofrestrydd uchaf ei swydd yn y gyfadran yn hysbysu'r corff statudol/proffesiynol perthnasol am y canlyniad. Os yw'n briodol, hysbysir cyflogwr y myfyriwr hefyd.